**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Ardal Bryn y Cwm held at Council Chamber Town Hall Abergavenny - Abergavenny on Dydd Mercher, 20fed Ebrill, 2016 at 2.00 pm**

**PRESENT:** County Councillors: D. Jones, S.B. Jones, S. Jones, M. Powell and J. Prosser

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Matthew Lewis (Countryside) | Countryside Manager |
| Mike Powell | Rural Programmes Officer |
| Dan Davies | Events Coordinator |
| Richard Williams | Democratic Services Officer |

**APOLOGIES:**

Councillors D. Edwards, R. Chapman, S. Howarth, P. Jordan, K. Williams, Edmondson, Michie and Woodhouse

1. **Datganiadau o Fuddiant.**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau buddiant gan Aelodau.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd.**

Ni chodwyd unrhyw faterion gan y cyhoedd.

3. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol.**

Cadarnhawyd a llofnodwyd gan yr Is-gadeirydd gofnodion cyfarfod Pwyllgor Ardal Bryn y Cwm, dyddiedig 10ted Chwefror 2016, yn amodol ar y newid canlynol:

Roedd y Cynghorydd Sir M. Hickman yn bresennol.

Wedi cymeradwyo'r cofnodion, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd y goleuadau dros dro ar y gefnffordd yn dal yn weithredol. Nodwyd amcangyfrif y gwaith gorffenedig erbyn diwedd Mawrth 2016.

- Roedd Cyngor Tref y Fenni wedi cynnig cymorth ariannol i helpu i gadw'r pedwar tŷ bach am 12 mis pellach. Anogir busnesau lleol i ganiatáu i aelodau'r cyhoedd i ddefnyddio'u tai bach. Nodwyd bod angen ystyried mynediad i'r anabl i'r tai bach.

4. **Cyflwyniad gan gynrychiolwyr Costain parthed cynnydd hyd yma yng nghyswllt Deuoli Ffordd Blaenau'r Cymoedd Gilwern i Frynmawr.**

Derbyniasom gyflwyniad gan Phillip Baker, yn cynrychioli Costain, ynghylch Gwaith Deuoli Ffordd Blaenau'r Cymoedd - Gilwern i Frynmawr.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Ardal Bryn y Cwm held at Council Chamber Town Hall Abergavenny - Abergavenny on Dydd Mercher, 20fed Ebrill, 2016 at 2.00 pm**

Darparwyd y Pwyllgor Ardal ag amlinelliad gwirioneddol o’r gwaith arfaethedig a’r heriau tebygol y bydd Costain yn debygol o’u hwynebu yn ystod y camau i ddod. Darparwyd gwybodaeth yn ogystal parthed y blaengynllun.

Wedi derbyn y cyflwyniad, nodwyd y pwyntiau canlynol.

- Roedd Costain yn gweithio gyda threfnwyr yr Eisteddfod i leihau’r ymyrraeth gymaint â phosib.

- Bwriedir agor Cylchfan Glanbaiden ym Mai 2016.

- Cytunwyd protocol gyda Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ynghylch gorchuddio’r pileri carreg.

- Ailgylchir y dur a ddefnyddir i adeiladu a daw o ffynhonnell leol (o fewn 40 milltir o’r prosiect).

- Mae’r tirlunio yng Ngilwern eto i’w gwblhau.

- Cedwir y bont droed yng Nghlydach ac mae pont newydd yn cael ei chodi.

- Dyddiad cwblhau’r prosiect yw Awst / Medi 2018. O ganlyniad i’r gaeaf gwlyb diweddar, mae Costain wedi bod yn gweithio dros y penwythnosau er mwyn cadw ar darged i gwblhau’r gwaith.

Ar ran y Pwyllgor Ardal, diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolydd Costain am ddarparu cyflwyniad diddorol yn llawn gwybodaeth.

**Penderfynasom estyn gwahoddiad i Costain fynychu cyfarfod y Pwyllgor Ardal ymhen chwech i naw mis i roi diweddariad i’r Pwyllgor ar gynnydd.**

**5. <u>Adroddiad diweddaru gan Dîm y Fenni parthed cynnydd hyd yma.</u>**

Derbyniasom adroddiad diweddaru gan Dîm Y Fenni ynghylch cynnydd hyd yn hyn. Wrth wneud hynny, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Bwriedir i’r prosiect Amaeth-Dinesig rannu gwybodaeth ac arbenigedd rhwng grŵp o ddeg tref a dinas ar draws Ewrop, yn y gobaith o ddatblygu cysylltiadau mwy clos rhwng y trefi a’u hardaloedd gwledig cyfagos, yn arbennig yn y broses o sicrhau bwydydd o ffynonellau lleol. Derbyniwyd dros 75 o geisiadau ac mae 11 o drefi ar hyn o bryd yn ymwneud â’r prosiect. Gofynnwyd i’r Fenni ymuno o ganlyniad i’w chysylltiad â bwyd, h.y. Gŵyl Fwyd Y Fenni. Mae cais wedi’i gyflwyno.

- Roedd cyfarfod lleol yn cael ei gydlynu yn cynnwys cymdeithasau, asiantaethau a’r gymuned gyda’r bwriad o roi cynllun at ei gilydd ar gyfer y ddwy flynedd nesaf i wneud Y Fenni yn gynaliadwy. Byddai; cofnodion y cyfarfodydd hyn yn cael eu

cylchynu i Aelodau. Rheolir hyn gan Swyddog o Gyngor Sir Fynwy gydag arian cyfatebol yn cael ei ddarparu am ddwy flynedd.

Penderfynasom dderbyn yr adroddiad a nodi'i gynnwys.

6. **Adroddiad diweddaru parthed Cyllid Cynllun Datblygu Gwledig (RDP) ar y Strategaeth Datblygu Leol.**

Derbyniasom ddiweddariad ar lafar ynghylch cyllid y Cynllun Datblygu Gwledig (CCD) ar y Strategaeth Datblygu Leol. Wrth wneud hynny, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Dyfarnwyd i Gyngor Sir Fynwy £2.79M drwy gyfrwng ffrydiau CCD ar raglen chwe blynedd.
- Mae 20% o arian cyfatebol i'w dderbyn oddi wrth noddwyr.
- Mae 160 o geisiadau wedi'u derbyn gyda dim ond un yn dod o Gyngor Sir Fynwy, sef, Cyngor Cymuned Llanofer, i edrych ar bedair neuadd bentref gyda'r bwriad o'u huwchraddio drwy ddarparu canolfan amlbwrpas gyda band eang.
- Mae Prosiect Rhaglen yr Arweinydd yn cynnwys pum grŵp o randdeiliaid.

Penderfynasom dderbyn y diweddariad ar lafar, gan nodi'i gynnwys.

7. **Diweddariad ar ddigwyddiadau yn Ardal Bryn y Cwm.**

Derbyniasom adroddiad diweddaru ar gynnydd y cynlluniau ar gyfer digwyddiadau o fewn 2016.

Wedi derbyn yr adroddiad, nodwyd y pwyntiau canlynol:

**Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy 2016**

- Bydd y Rheolwr Digwyddiadau yn ymchwilio i ddichonoldeb yr Awdurdod i gymryd drosodd gynnal a chadw'r 'Blychau Ffonio Coch' o fewn y Sir oherwydd iddynt gael eu hystyried yn atyniad i dwristiaid.
- Bydd Gorsaf Rheilffordd Y Fenni wedi cynyddu'i stiwardiaeth yn ystod yr Eisteddfod. Bydd yr holl fysiau'n cydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd. Bydd yr holl safle ar Ddôl y Castell yn cydymffurfio â'r Ddeddf.
- Bydd mynediad i'r anabl ar Ddôl y Castell yn agored erbyn Medi 2016.
- Bydd y Rheolwr Digwyddiadau'n ymchwilio i'r angen i ddarparu cyfarwyddyd ffurfiol ar gyfer pobl leol a allai ystyried gosod eu tai i ymwelwyr yn ystod yr Eisteddfod.

**Velothon 2016**

- Mynegwyd pryder y gallai fod problemau ynghylch da byw yng nghyd-destun y caeau ar ffordd y Velothon. Dywedodd y Rheolwr Digwyddiadau y byddai'n ymchwilio ac yn egluro'r broblem hon.

**Gŵyl Feicio Y Fenni**

- Nodwyd na fydd y digwyddiad yn effeithio gwaith ar Dir y Cyhoedd gan y rhagwelir y gellir datrys y sefyllfa.

Hysbysodd y Cynghorydd Sir J. Prosser y Pwyllgor Ardal y byddai'n Ddiwrnod y Lluoedd Arfog ar 24ain Medi 2016.

Penderfynasom:

(i) dderbyn yr adroddiad gan nodi'i gynnwys;

(ii) y bydd y Rheolwr Digwyddiadau'n ymchwilio i ddichonoldeb yr Awdurdod i gymryd drosodd gynnal a chadw'r 'Blychau Ffonio Coch' o fewn y Sir;

(iii) y bydd y Rheolwr Digwyddiadau'n ymchwilio i'r angen i ddarparu cyfarwyddyd ffurfiol ar gyfer pobl leol a allai ystyried gosod eu tai i ymwelwyr yn ystod yr Eisteddfod;

(iv) y bydd y Rheolwr Digwyddiadau'n ymchwilio ac yn egluro'r mater hwn ynghylch pryderon y gallai fod broblemau gyda rhai da byw ynghylch y caeau ar ffordd y Velothon.

**8. <u>Adroddiad diweddaraf ynglŷn â'r Afon Wysg, Dôl y Castell.</u>**

Derbyniasom adroddiad ynglŷn â'r Afon Wysg yn Nôl y Castell.

Hysbyswyd y Pwyllgor Ardal fod un mater ar ôl eto ers i'r Pwyllgor Ardal ystyried yn flaenorol Gynllun Rheoli Dôl y Castell - ceisiadau am fynediad lletach i'r Afon Wysg ac am newid polisi i ganiatáu canŵa a nofio gwyllt yn y rhan honno o'r afon gerllaw'r dolydd lle mae gan y Cyngor hawliau glannau afon.

Roedd y grŵp gorchwyl a gorffen o'r farn y byddai trafodaethau pellach rhwng y rheiny â diddordeb mewn pysgota a'r rheiny â diddordeb mewn canŵa yn angenrheidiol er mwyn gweld a ellid cael cytundeb ar ddefnydd lletach yr afon a phenderfynwyd bod swyddogion yn hwyluso trafodaeth bellach ac yn dod nôl ag adroddiad i'r Pwyllgor Ardal, fel y bydd yn ofynnol.

Yn anffodus cymerodd y broses hon dipyn o amser ond fe alwyd cyfarfod rhwng Clwb Canŵa'r Fenni a'r clwb pysgota. Fodd bynnag, ni lwyddodd y trafodaethau i gytuno ffordd ymlaen.

**Wedi trafod y mater penderfynodd y Pwyllgor Ardal y dylid paratoi adroddiad ar y mater hwn a'i gyflwyno i Bwyllgor Dethol Cymunedau Cryfion gyda'r bwriad bod y Pwyllgor yn archwilio'r mater cyn gwneud penderfyniad.**

**9. Rhaglen Waith y Dyfodol.**

Penderfynasom dderbyn Rhaglen Waith y Dyfodol gan nodi'i chynnwys.

**10. Nodi y cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Mercher 13 Gorffennaf 2016 am 2.00pm yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, Y Fenni (yn dibynnu ar argaeledd).**

Gwelsom y cynhelid y cyfarfod nesaf ar ddydd Mercher 13eg Gorffennaf 2016 am 2.00pm ac y cynhelir ef yn Neuadd Bentref Llanfair Cilgedin (yn dibynnu ar argaeledd).

**The meeting ended at 3.50 pm**